

# L L A A I S

## Cyffro yn y Cwm

Ar ganiad yr utgorn ar ddydd Gwener olaf yr Eisteddfod yn y Fenni, pleser o'r mwyaf oedd gweld un o feibion Cwm Tawe yn codi ar ei draed. **Aneirin Karadog** oedd enillydd teilwng y gadair eleni, a hynny am ysgrifennu dilyniant o gerddi mewn cynghanedd gyflawn dan y teitl 'Ffiniau'.

Er iddo fyw mewn sawl ardal o Gymru, mae Cwm Tawe'n agos at galon Aneirin. Dechreuodd ei addysg gynnar yn adran fabanod Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe ac mae'n ystyried ei gyfnod ym Mhontardawe yn gyfnod ffurfiannol yn ei fywyd. Mae'n falch iawn ei fod yn dal i siarad gydag acen Cwm Tawe. Yn ei eiriau ef, 'mae yna ramantaeth yn perthyn i acen y cwm.' Dywed mai "Aneirin 'Ffili'" oedd y plant yn ei ysgol newydd ym Mhontypridd yn ei alw, oherwydd ei ddefnydd o'r gair tafodieithol yna!

Mae Aneirin yn cofio cwmniaeth dda wrth fyw yma ac am sawl athro a chyfaill a greodd gryn argraff arno. Mae'n cofio ei gyfnod yn Ysgol Sul Soar, Pontardawe fel profiad dylanwadol iawn.

Yn ôl Aneirin, braf oedd cael mynd yn ôl i Ysgol Pontardawe fel Bardd Plant Cymru, er bod llawer wedi newid ers ei ddyddiau ef yn yr ysgol, hyd yn oed y safle!

Mae Aneirin yn cofio'r ardal fel lle Cymreig iawn yn y cyfnod. Yn ei gyfrol *O Annwn i Geltia* mae wedi cyfleu ei hoffter o'r ardal a'i natur yn yr englyn 'Bryn Teg', wrth iddo ddigwydd pasio cartref ei blentyndod yn Rhyd-y-fro. Dyfynnir rhan ohono isod:

Erys grisiau o groeso – erys gwres  
a grât o Gymreigio'n  
gartref yng nghartref fy nho'.

Mae Aneirin bellach yn astudio at Radd Ddoethur mewn ysgrifennu creadigol yn Academi Hywel Teifi ym

Mhrifysgol Abertawe. Dymunwn yn dda iddo ac edrychwn ymlaen at ddarllen rhagor o ffrwyth ei awen.

Dathlwn fywyd llenor arall o'r cwm ddiwedd mis Medi pan gynhelir noson yn HWB Ystalyfera i drafod gwaith **Islwyn Williams**. Awdur storïau byrion o Ystalyfera oedd Islwyn Williams, 1903-1957. Cyhoeddodd dri llyfr: *Cap Wil Tomos* (1946), *Storïau a Phortreadau* (1954) a *Côr Mawr Ystalyfera*.

Dywed Derec Llwyd Morgan, sydd hefyd yn hanu o Gwm Tawe, 'Islwyn Williams ydyw prif lenor y fro: ei chymdeithas hi, a'i chymdeithas hi yn unig, ydoedd ei ddefnydd crai, a'i hiaith hi yw ei iaith. Fe'i portreadodd mor wych fel y gellir dal erbyn hyn mai ar dudalennau'i lyfrau ef y mae hi'n anadlu gryfaf.'

Mae ei waith yn rhoi golwg ar gymdeithas sydd wedi graddol ddiflannu ac yn rhoi portreadau trwyadl o

natur y  
gweithiwr tun a'r glöwr.

O ran y dafodiaith y mae'n ei defnyddio, yn ôl Derec Llwyd Morgan: 'prin fod yr un llenor Cymraeg wedi gwneud defnydd iachach a siarpach o'i dafod erioed.'

Ar **nos Wener, 30 Medi** bydd dangosiad o ddau ffilm fer o waith cynhyrchu Dafydd Rowlands, sef *Boio a Moc Hawddamor*, ynghyd â gwerthfawrogiad o waith a bywyd Islwyn Williams gan Robert Rhys, darllynydd mewn Llenyddiaeth Gymraeg.



Am fwy o fanylion neu i brynu tocynnau cysylltwch â Julie Jones – 01639 849663 neu Gareth Richards 01792 815152 (dydd) gwasgmorgannwg@gmail.com

# LLAIS

Nid camp Aneurin Iwan Rhys Iwan yn unig sicrhodd bod sylw Eisteddfodwyr yn troi at Gwmtawe. Braff oedd gweld Elin Maher, gynt o Glydach yn cael ei hurddo i'r orsedd am ei gwaith wrth sefydlu Menter Iaith Casnewydd ac ar y nos Wener, Huw Chiswell, brodor o Odre'r graig oedd yn penawdu ar Lwyfan y Maes. Teimlwyd balchder wrth i bobl o bob oed ac o bob cwr o Gymru floeddio geiriau 'Y Cwm', cân am ein cornel fach ni o Gymru. Braff oedd gweld Eisteddfodwyr yn mabwysiadu'n hangerdd ni, drigolion y cwm, i fynegi eu hangerdd hwythau tuag at eu hardaloedd.

Trist oedd sylwi, beth bynnag, ar gyn lleied o drigolion Cwmtawe oedd yn bresennol i dystio i'r balchder yma.

Sawl un a dderbyniodd addysg Gymraeg yn y cwm na fanteisiodd ar y cyfle hwn i gymdeithasu trwy gyfrwng yr iaith? Sawl un na fanteisiodd ar y cyfle i glywed cerddoriaeth Gymraeg mewn awyrgylch gyfoes a chyffrous? Sawl un a gollodd y cyfle i ymuno ym mwrlwm yr iaith?

Atgyfnerthwyd y gofid yma wrth ddarllen canlyniad astudiaeth Dr Siôn Aled Owen oedd yn nodi bod disgyblion o Dde Orllewin Cymru yn defnyddio'r iaith yn yr un modd â disgyblion y De Ddwyrain, er bod mwy o gyfleoedd yn agored iddynt ddefnyddio'r iaith. Yn ôl Siôn Aled Owen, mae bwch rhwng agwedd pobol ifanc tuag at Gymraeg a'u defnydd o'r iaith, a bod nifer fach yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiâu'r ysgol. Mae hefyd yn cwestiynu beth yw eu perthynas â'r Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol am byth.

Ai'r 'piod a'r brain' yn unig sy'n cynnal cymdeithas Gymraeg yn ardal Cwmtawe bellach? Pa iaith sydd rhwng 'Frank a Moira' sy'n sefyll wrth y bar? A ydy ein 'hetifeddiaeth ar werth' wrth i apêl y dinasoedd mawrion ddenu ein hieuenctid dwyieithog?

A ydy'r Gymraeg yn estyn ymhellach nag ysgolion yr ardal? A yw hi bellach yn iaith gwaith? Iaith cymdeithasu?

Er hynny, braff synhwyro ymdeimlad o gymuned yn ailgynnau yn y cwm wrth i siopau annibynnol hawlio'u lle ochr yn ochr â'r siopau mawrion. Braff hefyd yw gweld y Fenter Iaith yn parhau ar flaen y gad wrth sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei mabwysiadu fel cyfrwng atyniadol a manteisiol i fusnesau. Mae Tŷ'r Gwrhyd, yn sicr, yn hwb enfawr i'r ardal gyfan.

Gyda chynlluniau newydd a chyffrous ar y gweill a chydweithio cynyddol rhwng sefydliadau, sicrhawn fod y Gymraeg yn 'sownd o dan ein traed'.

Golygydd mis Hydref  
**Gwenno Ffrancon**

Newyddion i'r canlynol os gwelwch yn dda:

**Gareth Richards, Gwasg Morgannwg**  
**Ystad Ddiwydiannol Mynachlog Nedd**  
**Castell-nedd, SA10 7DR**  
neu e-bost [dewiannette@gmail.com](mailto:dewiannette@gmail.com)  
Erbyn **Medi 20fed 2016** os gwelwch yn dda.



*Noson i gofio*

**ISLWYN  
WILLIAMS**

Yn cynnwys dangosiad dwy ffilm fer o waith cynhyrchu Dafydd Rowlands, sef *Boio a Moc Hawddamor*, ynghyd â gwerthfawrogiad o waith a bywyd Islwyn Williams

gan  
**Robert Rhys,**  
Darllenydd mewn  
Llenyddiaeth Gymraeg  
Prifysgol Abertawe.

**Nos Wener**  
**Medi 30, 2016**  
**7pm**

**HWB**  
**YSTALYFERA**

Commercial Street,  
Ystalyfera, SA9 2HR

~ ~ ~

Manylion / Tocynnau:

Gareth Richards

01792 815152 (dydd)

[gwasgmorgannwg@gmail.com](mailto:gwasgmorgannwg@gmail.com)

Cigyddion **Ponty Butchers**

71 Herbert Street  
Pontardawe

Telephone:

01792 863197

**Llawer i'w gynnig gan eich  
Cigydd Llwyddiannus**



Gwir Flas

Cymru y

*Dewch i'n gweld*

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y LLAIS**

**Nos Fercher, 14 Medi am 6.00**

**Tŷ'r Gwrhyd, Pontardawe**

*Croeso i Bawb*

Ariennir *Llais* yn  
rhannol gan  
**Lywodraeth Cymru**

**CYMRAG**

# CORNEL NATUR

DEWI LEWIS

## RHAMANT CYNHAEAF HANNER CANRIF YN ÔL

Yn ystod mis Awst eleni cyhoeddodd y *Guardian* golofn y 'Country Diary' a ymddangosodd hanner canrif yn ôl yn 1966. Yn y golofn cafwyd darlun rhamantus o'r cynhaeaf gwair yn gymysg â hiraeth am y dyddiau a fu. Cyfeiriodd y colofnydd yn hiraethus am ddiflaniad ceffylau a'r wagenni pren, a cholffarnodd ymddangosiad y tractor i wneud y gwaith. Er diflaniad y ceffylau roedd y colofnydd yn ymfalchïo bod bechgyn heb grysau a merched gyda'u gwallt wedi ei blethu yn parhau i ymgymryd â'r gwaith. Ymfalchïodd hefyd yn y ffaith bod y gwair yn cael ei gynaeafu yn hytrach na'i wastraffu neu ei losgi. Ac ychwanegodd pa mor ddefnyddiol oedd gwair er mwyn, ymysg pethau eraill, tyfu bresych a thatws a'i osod fel gwely i anifeiliad fferm neu hyd yn oed ei ddefnyddio i wneud compost.



Disgrifiodd y colofnydd sut roedd y tywydd braf heulog ar ddiwedd mis Awst a'r gweithgaredd yn y caeau wedi denu heidiau o bryfetach. Disgrifiodd sut yr oedd yr heidiau o bryfetach yn eu tro wedi denu heidiau drudwy (*starlings*) i'w canlyn. Roedd y pryfetach yn eu tro yn gyflenwad blasus o fwyd i'r adar. Disgrifiodd hefyd sut yr oedd heidiau o wylanod (*seagulls*) yn manteisio ar y cyflenwad bwyd er eu bod hwy yn tueddu i hedfan yn uwch yn yr awyr i gael eu tamaid.

Mae'n syndod sut mae cynhaeaf gwair wedi newid mewn sawl ardal yma yng Nghymru dros yr hanner canrif diwethaf. Peiriannau arbenigol sydd bellach yn lladd y gwair a'i gasglu er mwyn ei droi yn gesyg mawr wedi eu gorchuddio gyda phlastig du neu binc. Prin iawn y mae rhywun yn gweld byrnau (*bales*) gwair y dyddiau yma. Mae'r dyddiau lle bu angen mintai o bobl i gwblhau'r gwaith hefyd wedi mynd, gan fod un peiriant heddiw yn gallu cwblhau tasg deg o ddynion neu ferched.



Mae'r drudwy mwy neu lai wedi diflannu hefyd. Yn y dyddiau a fu roedd y drudwy yn aderyn cyffredin i'w weld drwy gydol y flwyddyn. Prin iawn erbyn hyn yw gweld haid sylweddol o drudwy yn ystod misoedd yr haf. Rhaid aros tan yr hydref a'r

gaeaf cyn ein bod yn gweld heidiau mawr o'r adar yn ein tir. Ymwelwyr o gyfandir Ewrop yn bennaf fydd yr adar hynny yn hytrach nag adar brodorol.

O'r holl nodweddion y cyfeiriwyd atynt uchod y mae un yn aros, sef y disgrifiad o'r gwylanod yn heidio i fwyta pryfetach. Pan fydd hi'n dymor lladd gwair fe fyddwch yn sicr o weld heidiau o wylanod yn canlyn y peiriannau. Mae'n siwr bod y rhywogaethau a'r niferoedd wedi newid rywfaint i beth oeddynt hanner can mlynedd yn ôl. Bryd hynny mi dybiwn mai gwylan benddu (*black-headed gull*) a gwylan y penwaig (*herring gull*) fyddai'r rhywogaethau cyffredin. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae niferoedd yr wylan gefnddu leiaf (*lesser black-back gull*) wedi cynnyddu yn aruthrol a siwr o fod mai yr wylan hon ynghyd â gwylan y penwaig yn bennaf fydd yn elwa o'r pryfetach. Mae sicrhau cyflenwad o fwyd yn sicr wedi dylanwadau ar eu hymddygiad wrth i gyflenwad bwyd y môr leihau. Adar y caeau a'r tomenni sbwriel ydynt erbyn heddiw.

Tybed hefyd a yw'r tywydd neu'r hinsawdd yn wahanol i beth oedd hanner canrif yn ôl? Yn aml fe glywir sôn am yr hafau heulog braf sydd erbyn hyn yn eithriad. Tybed yn wir beth oedd yn mynd drwy feddwl y ffermwr roeddwn yn ei wyluo yn ardal Felindre wrth iddo gyflymu i gasglu'r cwnd gyda chymylau duon bygythiol ar y gorwel? Do wir, fe welwyd newidiadau yn ein tir ac yn rhamant y cynhaeaf gwair.

## POBOL Y CWM MARTIN HARRIES

Ers 14 mlynedd bellach mae Martin Harries wedi bod yn rheolwr ar Neuadd Cwmllynfell. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi datblygu'n ffigwr canolog, cadarn ac adnabyddus yn yr ardal. Mae cymeriad hoffus Martin a'i allu i arwain wedi sicrhau cydweithio rhyngddo ef a'r gymuned leol. Mae ymdeimlad clos cymuned Cwmllynfell wedi'i hatgyfnerthu o ganlyniad i'w ymdrechion cyson a diflino wrth drefnu digwyddiadau ar gyfer pob oed. Ers i Martin gymryd yr awenau fel rheolwr y neuadd mae wedi dechrau dosbarthiadau cic-focsio, clwb cadw'n heini i'r rheini dros 50 oed a chlwb bowlio mat byr, i enwi ond ychydig. Mae Martin yn aml yn cynnal nosweithiau adloniant amrywiol yn y neuadd ac mae bob tro'n barod i gydweithio â'r Fenter Iaith er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw fel y bu yn y blynyddoedd cynt.

Mae plant Cwmllynfell yn gyfarwydd iawn â hiwmor Martin a'i dynnu coes cyson. Ers ei benodiad, mae wedi dechrau clwb ieuencid yn y neuadd ynghyd â chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau. Mae poblogrwydd y cynlluniau yma'n dyst i hoffter y plant o'u harweinydd.

Yn ddiweddar, mae Martin wedi rhoi Cwmllynfell ar y map wrth gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth bowls mat byr. O ganlyniad i'r llwyddiant hwnnw ac i ddangos gwerthfawrogiad o'i gyfraniadau niferus i fywyd y pentref, fe enillodd 'Gwobr Eirion Richards'. Cyflwynwyd y wobwr am y tro cyntaf eleni gan deulu'r diweddar Eirion Richards er cof amdano. Roedd Eirion yn unigolyn a gyfrannodd yn helaeth at fywyd Cwmllynfell a'r ardal gyfan ac roedd hefyd yn ffrind i Martin. Yn yr un modd â'i gyfaill, y mae Cwmllynfell yn hynod o bwysig iddo, ac mae Martin yn llwyr haeddu'r clod.

Diolch am gymeriad hoffus, ymroddgar, dibynadwy, llawn hiwmor, sy'n asgwrn cefn i'r gymdeithas.



## Llafur plant Cwm Tawe

Yn un o golofnau Cof y Cwm yn gynharach yn y flwyddyn, ymdriniwyd ag agwedd o hanes addysg plant yn y cwm yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O drafod achos enghreifftiol o Ysgol Rhyd-y-fro, dangoswyd sut y sefydlwyd ysgolion bwrdd yn y cwm yn dilyn deddfwriaeth a basiwyd ym 1870 a wnaeth addysg yn orfodol am y tro cyntaf. Mae haneswyr sydd wedi astudio plentyndod yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gwneud y pwynt bod y profiad o fod yn blentyn wedi'i drawsnewid yn ystod y cyfnod hwn a, thrwy astudiaethau o addysg, hamdden a gwaith, wedi dangos bod ystyr a diffiniad plentyndod wedi newid yn llwyr.

Yng ngholofn y mis hwn, y testun dan sylw yw agwedd bwysig arall o fywydau plant yn y ganrif, sef gwaith. Nid oedd gwaith yn rhywbeth newydd i blant yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wrth gwrs, a pharhaodd plant i weithio i mewn i'r ugeinfed ganrif a hyd at heddiw, ond fe ddaeth yn fater llawer mwy amlwg ar yr agenda gwleidyddol nag mewn unrhyw gyfnod cynt neu wedyn. Mewn gwirionedd, daeth gwaith plant yn bwnc llosg yn ystod y ganrif, yn enwedig yn y 1840au, a thyfodd y teimlad y dylai cymdeithas wneud mwy i ddiogelu plant rhag y niwed a wnaed i'w hiechyd a'u lles gan eu gwaith yn y gweithle.

Daeth uchafbwynt i'r trafodaethau hyn gyda chyhoeddiad adroddiadau'r Comisiwn Brenhinol ar Lafur Plant ym 1842. Penodwyd y Comisiwn yn dilyn pwysau ar y llywodraeth gan ddyngarwyr a diwygwyr cymdeithasol i ymchwilio i statws a phrofiadau plant yn y Deyrnas Unedig a oedd yn gweithio. Penodwyd nifer o gomisiynwyr a deithiodd ledled Prydain yn cyfwrdd â chyflogwyr, meddygon ac unigolion eraill am lafur plant mewn gwahanol ddiwydiannau. Aethant ati i gyfwrdd plant hefyd, er gwaethaf y ffaihad nad oedd y plant o Gwm Tawe a llefydd eraill i gyd yn siarad Saesneg, a chafodd sylwadau a barnau'r plant eu cofnodi air-am-air yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd.

Rhoddyd sylw i nifer o ardaloedd diwydiannol de Cymru yn yr adroddiadau, gan gynnwys llefydd yng Nghwm Tawe, megis Clydach, Ystalyfera ac Ystradgynlais. Darganfuwyd bod cannoedd o blant yn gweithio yn y pyllau glo, y melinau tun a'r ffrwnesiau haearn yn y cwm. Yng ngweithfeydd tun Ynispenllwch, Clydach, er enghraifft, roedd dros 30 o blant rhwng 13 a 18 blwydd oed a dros ddwsin o blant dan 13 blwydd oed yn gweithio deuddeg awr pob diwrnod. Cyflogwyd 700 o bobl gan gwmni gweithiau haearn Yniscedwyn, 150 yn y ffrwnesiau a'r gweddill yn y pyllau glo a ddarparai lo i'r ffrwnesiau, ac roedd bron i gant ohonynt yn blant dan 18 blwydd oed. Adroddwyd hefyd bod tua 40 o fechgyn a merched yn cael eu cyflogi gan gwmni gwaith haearn Ystalyfera, tra bod bron hanner gweithlu pwll glo Graigola yng Nghlydach, tua 20 unigolyn, yn blant hefyd. Roedd llafur plant, felly, yn elfen bwysig o economi'r cwm yn ystod y cyfnod.

Mae'n debyg y byddai plant yn dechrau gweithio yn ne Cymru yn iau nag mewn ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig; roedd rhai gweithwyr mor ifanc â phedair blwydd oed. Roedd hyn yn digwydd yn y diwydiant glo yn rhannol oherwydd roedd hawl gan eu tadau i dderbyn mwy o ddramiau gan felly godi mwy o lo pob dydd a chynyddu eu hincwm pe âi'r plentyn i'r gwaith yn ei gwmni. Ond, yn bwysicach, roedd angen i blant teuluoedd tlawd weithio mor gynnar â phosib er mwyn cyfrannu at fywoliaeth y teulu. Roedd tlodi teuluoedd yn amlwg mewn un darn o dystiolaeth a roddwyd yn yr adroddiadau – dywedodd Daniel Thomas, 15 blwydd oed – ei fod yn adnabod dwy ferch a dau fachgen a ddechreuodd weithio yn yr un ffrwnais haearn yn y cwm yn 7 mlwydd oed oherwydd marwolaeth eu tad mewn

damwain dan ddaear.

Roedd plant yn niwydiannau y cwm yn gwneud amrywiaeth o dasgau cynorthwyol. Yn y diwydiant glo, gweithai'r bechgyn ieuengaf, mor ifanc â saith blwydd oed, fel bechgyn y drysau, yn agor y drysau dan ddaear i'r glowyr a'u ceffylau basio trwodd cyn wedyn eu cau ar eu hól. Yn aml iawn, roedd y bechgyn hyn yn treulio'u shift yn oer ac yn wlyb, yn llwglyd, ac yn unig iawn, gan ennill cyn lleied â 6 ceiniog i 8 ceiniog y diwrnod. Roedd bechgyn hŷn, rhwng 14 a 17 blwydd oed yn dod yn dramwyr, yn gwthio dramiau, ac wedyn yn halwyr, gan gymryd cyfrifoldeb dros geffylau. Roedd David Davis, 15, David Thomas, 14, Thomas William, 15, ac Evan Jenkin, 10, yn gwthio dramiau mewn glofa yn Ystalyfera ac yn meddwl bod y gwaith yn ddigon hawdd; roeddent yn derbyn 1 swllt 6 ceiniog am bob diwrnod o waith.

Ceid mwy o amrywiaeth o dasgau cynorthwyol i blant yn y diwydiannau metel, gan gynnwys mwy o gyfleon i ferched. Roedd bechgyn ifanc yn y diwydiant haearn yn helpu wrth y ffrwnais, yn aml iawn yn agor y drysau'r ffrwnais ar ran y pwlder. Roeddent yn gorfod wynebu tymheredd uchel y ffrwnais a oedd yn weddol niweidiol i'w hiechyd a chaent eu talu rhwng dau a thri swllt yr wythnos. Byddai merched ifanc, yna, yn torri'r garreg galch cyn iddo gael ei osod yn y ffrwnais gyda'r haearnfaen. Roedd y gwaith yn llafurus iawn, a thalwyd tua saith swllt yr wythnos iddynt. Cai merched eraill, gan gynnwys Margaret Evans, 15, Gwenllian Evans, 16, a Mary Williams, 15, o Ystalyfera, eu cyflogi i fynd â'r lludw o'r ffrwnesiau i'r tomenni a welwyd wrth ymyl pob ffrwnais haearn yn yr ardal. Dyna beth oedd eu gwaith, rhwng chwech y bore tan chwech y nos, ym mhob tywydd, am 14 ceiniog y diwrnod. Yn y diwydiant tun, cyflawnwyd tasgau gan gynnwys piclo'r platiau o dun, pasio'r platiau trwy'r rholeri oer, ac agor y platiau. Roedd merched a bechgyn yn cael eu cyflogi i agor y platiau tun ac yn dioddef sawl anaf i'w dwylo wrth wneud y gwaith garw hwn – adroddwyd bod y rhan fwyaf o blant a oedd yn



gwneud y gwaith hwn wedi lapio eu dwylo mewn clytiau er mwyn ceisio eu harbed rhag anafiadau.

Roedd rhai tystion i'r Comisiwn yn sicr bod iechyd y plant yn well o ganlyniad i'r cyflogau roeddent yn eu hennill a'r bwyd gwell roedd y teulu yn gallu ei fforddio. Roedd William Price, meddyg gweithiau Yniscedwyn, er enghraifft, yn sicr bod y plant a gyflogwyd yno yn iach, yn gryf ac yn gyfartal yn eu hiechyd i unrhyw blant eraill yr ardal. Roedd rhai tystion eraill, ar y llaw arall, yn glir eu barn bod y gwaith yn niweidiol i iechyd y plant. Roedd gwaith dan ddaear ac yn y ffrwnesiau yn achosi anhwylderau'r ysgyfaint, gan gynnwys asthma, niwmonia a bronchitis, tra bod rhai eraill wedi nodi eu cred bod plant a weithiai yn fyrrach na phlant eraill, oherwydd effaith y gwaith a'r awyrgylch afiach ar eu hiechyd, a'u bod yn welw o ran eu golwg. Roedd Francis Williams, 16 blwydd oed, o'r farn bod y tamprwydd dan ddaear wedi achosi iddo golli diwrnod neu ddau o waith bob yn hyn a hyn – 'mae'n brifo fy mhen', dywedodd – tra bod Joseph Levi, a weithiai yn ffrwnais Yniscedwyn wedi dioddef salwch a'i cadwodd bant o'r gwaith am gymaint â blwyddyn.

Yn y pen draw, ac oherwydd y deunydd a gyhoeddwyd yn yr adroddiadau a gafodd eu hadrodd yn y papurau newydd ar y pryd hefyd, pasiwyd deddfwriaeth gan y llywodraeth i roi cyfyngiadau ar lafur plant. Pasiwyd deddf mwyngloddio ym 1842 a waharddai plant dan 10 blwydd oed a menywod rhag gweithio dan ddaear tra bod deddf arall a basiwyd ym 1844 wedi rhoi cyfyngiadau ar nifer yr oriau y gallai plant eu gweithio mewn ffatrioedd a gweithleoedd eraill. Pasiwyd mwy o ddeddfau i reoli llafur plant yn ystod blynyddoedd dilynol y ganrif a chyflwynwyd addysg orfodol ym 1870. Trwy'r dulliau hyn, cafodd plentyndod ei ail-ddiffinio – nid oedd plant yn cael eu gweld fel oedolion bychain bellach ond fel unigolion a haeddai driniaeth wahanol. Cyfrannodd y datblygiadau hyn at greu cysyniad o blentynod fel cyfnod penodol ym mywyd unigolyn, ac yr haeddai y blynyddoedd cynnar hyn amodau a phrofiadau arbennig a fyddai'n fodd o ffurfio unigolyn gwerthfawr i gyfdeithas.

Os am gysylltu: sdt@aber.ac.uk

# YSTRADGYNLAIS

## LLONGYFARCHIADAU

..... i Ceiron Hopkins, Heol Maespica, Cwm-twrch Isaf, mab Julie a Cellan, wŷr David ac Ann Evans, Cwmgïedd a John a Non Hopkins, Tan-y-farteg a ddewiswyd yn ddiweddar i gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Ryngwladol Athletau Ysgolion yn Ashford, Caint. Bu'n cystadlu yn y naid hir, y râs 200 metr a'r râs gyfnewid. Bu hefyd yn cynrychioli Cymru yn y Gemau Celtaidd yn Abertawe ar 6 Awst.

## CÔR Y GYRLAIS - BARBECIW A CHYFLWYNIAD

Ar 23 Gorffennaf cynhaliwyd barbeciw blynyddol Côr y Gyrlais yn Neuadd Les Cwm-twrch, ac fel arfer, 'roedd yn achlysur i'w gofio. 'Roedd arogl y coginio yn llenwi'r awyr o gwmpas y Neuadd Les. Canodd y Côr nifer o ganeuon dan arweiniad Glyn Williams, y Cyfarwyddwr Cerdd â Christopher Lewis yn cyfeilio. Cyflwynodd Bill Williams, aelod o'r Côr, siec gwerth £1,500 i Barbara Davies, cynrychiolydd 'Golau', yr elusen gancr. Dyma elw'r gyngerdd a gynhaliwyd yn Neuadd Les Ystradgynlais ym mis Gorffennaf. Bu Spence Martin, comedïwr ac unawdydd yn diddanu'r dorf adeg y barbeciw.

Diolchodd y trefnydd, Teifryn James, i nifer o'r cyn-lywyddion oedd yn bresennol.

Ar 10 Medi bydd Côr y Gyrlais yn ymuno gyda Chôr Cefnogwyr y Gweilch a'r tenor byd-enwog Rhys Meirion mewn cyngerdd i godi arian tuag at gronfa goffa Hedd Wyn, y bardd a syrthiodd yn Fflandrys.

## MARWOLAETHAU

Wedi tostrwydd byr, yn Ysbyty Treforys, ar 16 Mehefin bu farw Des Rees, Heol Ynyscedwyn, priod Freda, tad Helen a Tony, tadcu Mathew ac Ashley.

Ar 19 Mehefin, yn ei gartref yn Richmond Park, bu farw Desmond Williams, priod y ddiweddar Marian, tad Karen a Kevin, tad yng nghyfraith Carl, tadcu a hen-dadcu annwyl.

Yn Ysbyty'r Gymuned, Ystradgynlais ar 5 Gorffennaf bu farw Ceri Matthews, William Street, Glan-rhyd, priod Maureen, tad Ian a Janette, tad yng nghyfraith Neil, tadcu Rhys a Cai.

Yn Ysbyty Singleton, ar 7 Gorffennaf bu farw Moira Martin, Heol Gron, Gurnos, priod Alun, mam Andrea, Leigh a Cheryl, mam yng nghyfraith Alan a Martin, mamgu a hen-famgu annwyl.

Ar 9 Gorffennaf yn Ysbyty Treforys, bu farw Carol Phillips, Heol y Gwynt, Glan-rhyd, priod Jeffrey, mam Claire a Kirsty, merch Margaret a'r diweddar Walter a chwaer Gaynor.

Yn ei gartref yn Pen-y-bryn, Pen-rhos ar 21 Gorffennaf bu farw Haydn Williams, mab y diweddar Kathrine a Daniel, brawd y diweddar Charlie a Gethin, ewythr Susan, Richard, Michael a'r diweddar Gerwyn.

Yn Ysbyty Singleton ar 21 Gorffennaf bu farw Margaret Dilys James, gynt o Swyddfa'r Post, Pen-rhos, priod y diweddar Ken, mam Andrew, mam yng nghyfraith Lesley, chwaer y diweddar Glyn a Sadie, a modryb annwyl.

Ar 25 Gorffennaf yn ei gartref ar Brecon Road bu farw Hywel Bevan Davis, priod Marilyn, tad Michael, Ceri a Wyn, tad-yng-nghyfraith a thadcu annwyl.

Yng nghartref Cwrt Enfys ar 26 Gorffennaf bu farw Mair Evans, Maes Cynog, priod Phil, mam Ceirwyn a Hywel.

Yn Ysbyty Treforys ar 5 Awst bu farw Arwel Griffiths, Lluest, priod y ddiweddar Nancy, tad Edward, Darlene a Simon, tad yng nghyfraith, tadcu a hen-dadcu annwyl.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd yma yn eu hiraeth a'u galar.

## DIOLCH

Dymunwn ni, sef Marilyn, Michael, Ceri, Wyn a'r teulu, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atom yn ddiweddar.

Diolch i Mr Gareth Hopkin am ei eiriau tyner a theimladwy, i

Mr Roger Castle a'i ferch Julie am eu gwasanaeth. Mawr yw ein gwerthfawrogiad o gymorth a chydymdeimlad cyfeillion annwyl a ffyddlon.

# CWMLLYNFELL

## CLEIFION

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr i Mr Cerith Close, Heol Gwilym, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty.

## MARWOLAETH

Cofiwn am a chydymdeimlwn â dau deulu yn eu hiraeth a'u galar, sef teulu Mr John Harris, Cefn-bryn-brain a theulu Mr Will Evans, Dolawel.

## DATHLU

Croeso i'r byd i Kian Darcy, mab bach i Mr a Mrs. Martin Cadell, Heol Gwilym, brawd i Taylor. Pen-blwydd hapus i Mr Glyn Jones, Heol Harris sydd yn 80 oed. Llongyfarchiadau i Steffan, wŷr Mr a Mrs Peter Jones, Railway Terrace; Owain ac Ifan, sef wyrion Mrs Noreen Davies a'r diweddar Mr Gethin Davies, Ystradowen; a Catrin a Siwan, wyresau Mr a Mrs Ivor Davies, Lewis Avenue - pob un wedi graddio yr haf hwn. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

# YR ALLTWEN

## CYDYMDEIMLAD

Tristawyd trigolion yr ardal wrth glywed am y tân yn Lôn Tanyrallt lle collodd Jac, pedair oed, ei fywyd. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled a'u galar.

## Y CAPEL

Llongyfarchiadau gwresog i Alan Williams, un o'n haelodau, sydd wedi graddio gyda gradd 2:1 yn y Gymraeg o Brifysgol Abertawe. Cyn ymdddeol roedd Alan wedi gweithio fel technegydd yn y labordy yng ngwaith Trostre. Mae ganddo ef a'i wraig Ann (George) ddau o blant, Gareth a Helen, a phump o wyrion, George, Henry, Edward, Lottie a'r newydd-anedig William Rhys, mab i Helen ac Andrew.

Ar Orffennaf 29, 1966 priododd y Parchedig Gareth Morgan a Jill Jones yn Eglwys Calfaria Penygroes ac aethant ar eu mis mêl i Ibiza. Buont yn dathlu eu priodas aur ar fordaith ym Môr y Canoldir yn ddiweddar. Mae ganddynt dri o blant, Siân, Endaf a Rhian a dwy wyres, Ffion Mair ac Erin Medi.



## MERCHED Y WAWR

Yng nghyfarfod mis Medi daeth Jayne Lewis, Ymchwil y Galon atom i sôn am ei gwaith a'r camau y gallwn ni gyd gymryd i ddiogelu iechyd y galon. Soniodd am y Deffribrilwr Allanol Awtomatig CAED (*Auto External Defibrillator* yn Saesneg) a welir mewn adeiladau cyhoeddus – mae un yng Nghanolfan y Celfyddydau Pontardawe. Dangosodd i ni sut mae mynd ati, pe baem yn dod ar draws rhywun a oedd angen dadebru cardio anadliol (CPR). Dros y ddwy flynedd diwethaf mae aelodau Merched y Wawr wedi bod yn brysur iawn yn casglu ategolion, beltiau, sgarffiau, menyg a thlysau i'w gwerthu er budd Sefydliad Ymchwil y Galon. Pleser yw cyhoeddi bod £38,000 wedi ei gasglu mor belled.

# PONTARDAWE

## Y TABERNAACL

### OEDFAON MIS MEDI

4	10.30	Y Parchedig Owen Pugh - Cymundeb
11	10.30	Y Parchedig Lona Roberts (Soar)
18	10.30	Y Parchedig Owen Pugh
25	10.30	Y Chwaer Sylvia Hoskins (Saesneg)

### OEDFAON MIS HYDREF

2	10.30	Y Parchedig Owen Pugh - Cymundeb
9	5.30	Y Brawd Gareth Hopkin
16	10.30	Y Parchedig Owen Pugh
23	5.30	Y Parchedig Clive Williams (Saesneg)
30	10.30	Y Parchedig Owen Pugh

## COLLI CYMWYNASWR

Trist iawn yw cyhoeddi marwolaeth ein diacon ffyddlon a hynaf Emlyn Williams, a fu farw'n dawel yn ei gartref ar nos Sadwrn 30 Gorffennaf. Yn dilyn gwasanaeth yn y Tabernacl ar 11 Awst cynhaliwyd gwasanaeth pellach yn Amlosgfa Treforys. Yn lle blodau cyfrannwyd tuag at Nyrsys Marie Curie neu Nyrsys Ardal Pontardawe trwy Wynford Thomas a'i fab, Ymgymeryr, Pontardawe.

'Roedd Emlyn wedi bod yn Faer Pontardawe ar ddwy adeg, yn aelod o'r Gwasanaeth Ambiwllans, yn Ysgrifennydd Cymdeithas Henoed Pontardawe ac yn aelod o Gôr Orffiws Treforys. Cafodd ei wobrwyo gyda thlws 'Halen y Ddaer' gan raglen 'Prynhawn Da'. Yn ystod y Rhyfel Byd diwethaf oedd Emlyn yn aelod o'r Llu Awyr ac wedi bod yn hedfan awyrennau Lancaster ar sawl achlusur dros yr Almaen.

Cydymdeimlwn yn arw gyda'i wraig Betty, eu plant Ken ag Eiry, eu plant yng nghyfraith Joanne a Huw, ei chwaer Megan a'i frawd Tal. Mae teyrnged isod i Emlyn gan Tal yn dilyn.

## TEYRNGED I ARTHUR EMLYN WILLIAMS

Bu farw yn dawel yn ei gartref ar 30ain Gorffennaf 2016 yn 92 oed. Ysgrifennwyd gan ei frawd Tal.



*Emlyn a'i wraig Betty*

Bedyddiwyd Emlyn yn Arthur Emlyn am fod gan ei dad frawd o'r enw Arthur a oedd yn fariton swynol. Nid oedd Emlyn wedi canu fel unawdydd heblaw am ei weithgareddau efo'r capeli lle y gwnaeth ddefnydd da o'i lais bariton.

Bu bywyd Emlyn yn draddodiadol hyd at adael yr ysgol yn 14 oed. Roedd e'n mwynhau pob peth yng nghapel Gosen, Trebannws a chafodd wersi piano gan ein tad pan yn 8. Fe wnaeth ddefnydd mawr o'r rhain yn hwyrach.

Roedd yn mwynhau actio yn Operettas yn y capeli – yn cymryd rhan flaenllaw, ac am ei fod yn medru dysgu ei rannau yn gyflym, roedd wastod amser ganddo i chwarae trics ar yr actoryn eraill. Mae'n sicr ei fod wedi mwynhau y rhan hon o'i fywyd yn fawr.

Roedd Ysgol Trebannws bob amser yn pwysleisio safon

llawysgrifen, ac roedd llawysgrifen Emlyn yn ardderchog. Credai os oedd yn werth ei ysgrifennu roedd yn werth ei wneud yn dda. Yn ei flwyddyn olaf yn yr ysgol cafodd ei wneud yn ysgrifennydd y gymdeithas ddadlau oherwydd ei ysgrifen 'copperplate' hyfryd.

Nid oedd wedi bod yn ysmgwr am 40 mlynedd – oddi ar iddo ymuno â Chôr Orffiws Treforys ond roedd wedi mwynhau ysmegu fel gŵr ifanc. Roeddem yn 'bedmates' fel plant ac rwy'n cofio achlysur pryd roedd yn mwynhau 'Woodbine' yn y gwely pan glywodd ein mam yn dringo'r grisiau. Fel mellten diffododd y sigarèt a diffodd y gannwyll oedd yn yr ystafell wely. Pan ofynnodd mam 'Beth yw'r gwynt 'ma?', fe ddywedodd yn ddiarog 'gwynt y gannwyll yw e' - a daeth yn rhydd â hi.

Gadawodd yr ysgol yn 14 a bu mewn sawl 'jobyn' nad oedd yn addas; roedd yn haeddu gwell, ond pan yn 17 fe'i berswadiwyd i fynd o dan ddaer fel technegydd pwmp awyr yn y gwaith glo lleol. Roedd yr arian yn fach a'r gwaith yn anniddorol, ac wedi gweld ffrindiau yng ngwisgoedd y fyddin, y llu awyr a'r llynges, a chlywed am eu hanes cyffrous, gofynnodd am gael ei ryddhau er mwyn ymuno â'r RAF fel gwirfoddolwr.

Cyn pen dim roedd yn Nghaer-lŷr (Lincoln) ar gwrs saethu am fod ei archwiliad meddygol wedi darganfod fod ganddo olwg llygaid perffaith. Bu'n ymarfer mewn awyrenau Avro Ansons, Wellingtons a Stirlings nes iddo gael ei eilyddio i sgwadron Guy Gibson, ac arhosodd yno tan ddiwedd ei yrfa.

Hedfanodd ar 35 o 'sorties' dros diriogaethau'r gelyn, gan ddychwelyd i Gaer-lŷr ar ôl sawl dihangfa wyrthiol. Roedd ymdrechu i'w gael i ailadrodd rhai o'r digwyddiadau brawychus yn anodd yn gyffredinol. Wrth ddychwelyd ar ôl un ymgyrch dros Berlin gydag awyrennau B49 yr Americanaid, roeddent ynghanol niwlen drom. Emlyn oedd y saethwr canolog uchaf ac yn medru gweld o amgylch yn well na neb arall. Yn sydyn gwaeddodd: 'dive, dive' am fod un B49 dros eu pen yn ymdrechu i ddisgyn yn is i ddod allan o'r niwlen. Os na fydde Emlyn â'i lygaid perffaith heb fod mor wylidwrus fe fyddai damwain ddychrynllyd wedi digwydd.

Gorffennodd hedfan yn 1945 a hyd ei 'ddemob' yn 1947 ymunodd â'r gwasanaeth 'Mountain Rescue' yn archwilio mynyddoedd yr Alban a Chymru am olion awyrennau. Roedd yn adnabod Eryri, Epynt, y Mynydd Du a Bannau Brycheiniog fel cefn ei law.

Ar ôl cael ei 'demob' cafodd iwnniform arall fel gyrrwr bws i gwmmi 'Eclipse' o Glydach, gan roi wyth mlynedd o wasanaeth iddynt hyd nes i gwmmi Gilbertson gynnig gwell cyflog. Wedyn aeth i waith tun Felindre fel gyrrwr 'gantri'.

Roedd yn awyddus o hyd i fod o wasanaeth i'r gymuned a bu'n yrrwr ambiwlans ym Mhontardawe am bron ugain mlynedd. Cafodd ei ethol yn Gynghorydd Cymuned, yn Gynghorydd Sir a Dirprwy Faer Cyngor Dyffryn Lliw ac yna yn Faer i Gyngor Cymuned Pontardawe ar ddau achlysur. Roedd yr elfen o wasanaeth da yn bwysig iddo bob amser.

Ble bynnag y'i gwelid ef, roedd yn ymddwyn â brwdfrydedd - naill ai fel capten tîm criced 'South Wales Transport', neu fel ysgrifennydd cyngor adloniant Gwasanaeth Henoed Pontardawe, neu fel organydd rhan amser capeli a mudiadau lleol. Nid oedd llai na 100% o ymdrech yn ddigon i Emlyn.

Roedd yn falch iawn o'i aelodaeth am 45 o flynyddoedd gyda Chôr Orffiws Treforys o dan bedwar Cyfarwyddwr Cerddorol, ac roedd yn credu'n gryf mai presenoldeb da yn yr ymarferion oedd y rheswm am enwogrwydd a llwyddiant y côr.

Rhododd wasanaeth i gymdeithasau'r RAF a'r Henoed am lawer o flynyddoedd ac roedd yn mynychu cyfarfodydd aduniad Sgwadron y Lancastriaid yng Nghaer-lŷr. Gyda marwolaeth Emlyn, nid oes neb o'i criw ar ôl bellach.

Mae marwolaeth Emlyn yn gadael Pontardawe yn llwmach; cyfrannodd yn sylweddol i fywyd crefyddol a diwylliannol Pontardawe.

Ie – dyn ei filltir sgwâr odd Emlyn.

## COLLI GWEN

Trist dros ben oedd clywed am farwolaeth ein chwaer a'n

haelod Gwen Jones o Ryd-y-fro, a fu farw yn Ysbyty Treforys ar 10 Gorffennaf ar ôl cyfnod hir o dostrwydd. 'Roedd Gwen yn wraig a ffrind hyfryd i Malcolm, Trysorydd y capel, yn fam gariadus iawn i Martin ac Anne, ac yn fam yng nghyfraith hoff i Hannah a Ryan. Roedd yn chwaer annwyl i Rhys ac yn fodryb hoff i lawer nith a nai yn ardal Aberhonddu.

Codwyd Gwen ar fferm Tai-newydd, Llywel, ger Pont Senni ond roedd hi a Malcolm wedi byw yn ardal Pontardawe am fwy na deugain mlynedd. Roedd y ddau ohonynt yn perthyn i lawer o wahanol fudiadau ym Mhontardawe ac yn mwynhau cyfeillgarwch llawer o ffrindiau.

Claddwyd Gwen yng Nghapel Libanus ger Aberhonddu ar 18 Gorffennaf. 'Roedd cynulleidfia niferus yn bresennol gyda llawer o aelodau'r Tabernacl a ffrindiau eraill wedi teithio o Bontardawe.

Ar 7 Awst cynhaliwyd gwasanaeth cymun yn y Tabernacl, o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Owen Pugh ac roeddem hefyd yn ddathlu bywyd Gwen. 'Roedd llawer o deulu a ffrindiau Gwen o Aberhonddu yn bresennol.

### LLONGYFARCHIADAU

Bydd dydd Llun, 18 Gorffennaf yn ddiwrnod i'w gofio i'n haelod Jane Davies, chwaer Alan Williams a'i deulu o'r Allt-wen, pan dderbyniodd Alan radd yn y Gymraeg yn y Neuadd Fawr yng Nghampws Prifysgol y Bae yn Abertawe. Hon oedd y seremoni gyntaf i'w chynnal yn y safle hwn.

'Roedd yn achlysur arbennig: y lleoliad yn berffaith, y tywydd yn braf a phawb yn ymfalchïo yn llwyddiant Alan. Mae 'na ddwy linell o gywydd y Prifardd Tudur Hallam, a ddarllenwyd yn ystod y seremoni, yn crynhoi'r cyfan: "Da heddiw'r anrhydeddu; di-fai'r astudio a fu". Llongyfarchiadau Alan, oddi wrthym ni i gyd.

### GWIBDAETH FLYNYDDOL

Yn dilyn eu gwibdaith flynyddol i'r Gerddi Botaneg yn Llanarthne ar 23 Mehefin, galwodd aelodau cymdeithas ein chwirydd yng ngwesty'r 'White Hart' yn Llandeilo. Dyma lun rhai ohonynt yn barod i fynd i mewn i'r wledd. 'Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.



### SOAR

#### CYMDEITHAS Y GWAHANGLWYFUS

Ar Sul Gorffennaf 10fed ein cennad oedd Mr Mansel Jones (Caerdydd) sy'n wirfoddolwr i Genhadaeth y Gwahanglwyfus (Leprosy). Soniodd yn arbennig am waith y Gymdeithas yn Nepal, yng nghysgod Everest. Cyflwynodd Tom siec a llwyth o stampiau a gasglwyd yn Soar i godi arian i'r elusen. Codwyd £2 filiwn llynedd drwy Brydain trwy werthu stampiau i gynorthwyo'r gwaith. (Os oes gennych stamp â llun y Dywysoges Diana arno a theitl Cymraeg, mae'n werthfawr dros ben).

### LLONGYFARCHIADAU

Ganwyd mab i'n gweinidog Dr Andras Iago a'i wraig Heledd ar Awst 8fed. Ei enw yw Mabon Dafydd. Ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau i'r teulu bach. Andras fu'n traddodi darlith Cymdeithas Hanes Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yn Seilo, Llandudno ar Orffennaf 13eg – y teitl oedd "Thomas Jones Dinbych (1756-1820) a'r Meddwl Methodistaidd."

Llongyfarchiadau hefyd i Tom a Rosalind wrth iddynt ddathlu eu priodas ddiemwnt (60 mlynedd) a phob dymuniad da iddynt.

### BARDD Y GADAIR

Roedd aelodau Soar wrth eu bodd wrth glywed cyhoeddi enw Bardd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy yn y Fenni, sef Aneirin Karadog. Mae Aneirin yn un o gyn-ddisgyblion Ysgol Sul Soar ynghyd â'i frawd iau Hefin. Hyfryd oedd gweld ei rieni, Derek a Kristina draw o Lydaw hefyd a Hefin sy'n byw nawr ym Mhontypridd. Ganwyd mab i Aneirin a'i wraig Laura yn fuan wedi'r diwrnod mawr, Erwan Teifi. Mae Aneirin yn fyfyrwr PhD yn Academi Hywel Teifi ym Mhrifysgol Abertawe.

### LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i nifer o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul a lwyddodd yn eu harholiadau yn ystod yr haf. Ar Orffennaf 13eg, cafodd Lowri ddwy wobwr (Saesneg a Chymraeg Blwyddyn 9) yn Noson Wobrwo Ysgol Gyfun Ystalyfera. Yn ystod Awst, clywsom newyddion da am llwyddiant Ryan, Chloe, Iwan a Carys o Bontardawe ac am Manon, Siriol ac Annabelle - wyrion Tom a Rosalind o Gaerfyrddin. Mae rhai yn mynd ymlaen i'r coleg ac eraill yn gorffen eu cyrsiau. Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i bob un ohonynt.

### SALWCH

Mae'n ddrwg gennym ddeall fod Beryl, ein blaenor ffyddlon ac un o bileri'r Ysgol Sul, yn dioddef ar hyn o bryd. Mae pob un ohonom yn meddwl amdani ac yn dymuno'r gorau iddi.

# RHYDYFRO

### SARON

- 4 Y Pastor Lyn Maddocks
- 11 i'w drefnu
- 18 Y Brawd Dorian Richards
- 26 Y Brawd D C Davies

### ALLAN O'R YSBYTY

Rydym yn falch dros ben i glywed bod Myra Richards ac Arthur Bryn Jones wedi gadael yr ysbyty ac yn ôl yn eu cartrefi. Hefyd dymunwn yn dda i Aurwel Morgan, gŵr Jennifer, organyddes Saron, a Michael Harris, Pantycelyn gynt. Ar ôl symud o Ryd-y-fro i Gwm Dulais (Seven Sisters) i fod yn agosach at y teulu, clywsom fod Nigel Rowe wedi cwmpo a torri ei fraich. Da hefyd gweld bod Mrs Ferial Roberts nawr yn cerdded heb ffon fagl ar ôl cael triniaeth lawfeddygol.

### MARWOLAETHAU

Yn dawel ar 10 Gorffennaf bu farw Gwen Jones, Waun Penlan ar ôl tostrwydd hir. Cynhaliwyd gwasanaeth yn eglwys Libanus o dan ofal y Parchedig Michael Hodgson a'r Parchedig Owen Pugh. Claddwyd ym mynwent yr eglwys, lle y gorwedd sawl cenhedlaeth o'r teulu. Cydymdeimlwn yn ddwys â Malcolm a'r plant Martin ac Anne a'r holl deulu.

Tristwch hefyd oedd colli ffrind da i Saron ar farwolaeth Emllyn Williams lle bu yn organydd am nifer o flynyddoedd. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

### SARON, RHYDYFRO



Dyma lun rhai o aelodau Saron gyda'r Parchedig Ieuan Davies ar ei ymweliad ddiwethaf. Bu'n pregethu yma er yn fachgen ysgol pan oedd yn "swoto" am ei Lefel O yn y Tŷ Capel rhwng gwasanaeth y bore a'r hwyr.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Aneirin Karadog ar ennill y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni. Bu'r teulu yn byw yng Ngelli-gron a chafodd ei addysg gynnar yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe.

## ATYNIADAU LLEOL

Cefais hwyl wrth dywys ymwelwyr o amgylch yr ardal yn ddiweddar. Ym mis Awst cerddom heibio Pen-lan i ymweld â chapel hynafol Gellionnen ac wrth lwc 'roedd y drws yn agored. Cawsom groeso gan dwy wraig a oedd yn gosod blodau yn barod am wasanaeth y prynhawn. Ar y ffordd yn ôl wrth bwysu ar bont y felin gwelsom finc - y cyntaf i fi weld ar yr afon Clydach Uchaf. Ar ôl cinio aethom i weld y "Cerrig Peics" (Carn Llechart) a chapel y Baran. Yr oedd y ddau o Avignon, Ffrainc wedi mwynhau'n fawr iawn, y tywydd braf a'r golygfeydd yn ardderchog, yn enwedig ger Penlle'r castell yn edrych ar y machlud dros aber Lluchwr.

## CAPEL Y BARAN

Cawsom oedfa fendithiol iawn o dan arweiniad y Parchedig Gerald Jones. Seiliodd ei bregeth ar brofiad y ddau ddisgybl yn cerdded ar y ffordd o Jerwsalem i Emaus. Diddorol hefyd fod Mr Jones wedi dewis myfyrio ar yr un bennod a ddewisodd y Prifardd Einir Jones fis ynghynt ond eto roedd ei neges yn ffres. Oherwydd iddynt fwynhau gymaint gwmni'r dieithryn a ymunodd â hwy, gofynasant iddo aros y noson. Ac wrth bryd o fwyd syml wrth y bwrdd torrodd y dieithryn fara, a'i fendithio a'i rannu. "Ac adnabuasant ef ar doriad y bara". Mae llawer heddiw yn gwybod am Iesu, ond mae 'na wahaniaeth mawr rhwng gwybod am rywun ac adnabod rhywun. Mae gwir adnabod yn golygu perthynas glos a phleser o fod yn eu cwmni. Drwy ddangos lletygarwch i ddieithryn daethant i adnabod Iesu. Mae lletygarwch yn golygu llawer mwy na phaned a bisgedi. Golyga rannu ein bywydau gyda rhai sydd mewn angen, hyd yn oed y rhai sy'n annymunol yn ein tyb ni. Drwy ymarfer lletygarwch, bydd y byd yn gweld Iesu yn ein bywydau a'n gweithredoedd. Mae'n un peth i fwydo'r anghenus, maen beth arall i fwyta gyda hwy. Mae awdur y llythyr at yr Hebraeid yn dweud wrthym: "Cofiwch lletygarwch oherwydd trwyddo mae rhai wedi rhoi llety i Angylion". Diolch i'r Parchedig Gerald Jones am oedfa a'n cyfoethogodd yn feddyliol ac yn ysbrydol.

Ar y Sul cyntaf o Awst ymunodd cynulleidfa luosog â theulu a chyfeillion Bethan a John Roberts, dau o ffyddloniaid yr achos, i ddathlu yn y Sacrament o fedydd. Bedyddiwyd brawd a chwaer, sef Mali Kate a Thomas Abner, plant Bethan a John. Gweinyddwyd y Bedydd gan Eifion Walters. Yn hyfryd iawn mae Mali ac Abner drwy briodas yn llinach y Parchedig Roger Howell, gweinidog cyntaf y capel yn 1805. Braf oedd y gyfeillach dros luniaeth blasus wedi'r oedfa. Mor briodol yw dathlu'r bedydd ymhlith y gynulleidfa lawen a oedd yn dystion i'r Sacrament.



Roedd gweddill yr oedfa o dan ofal y Brawd Eric Francis. Pregethodd gydag arddeliad ar eiriau ym mhennod gyntaf Efengyl Marc sy'n sôn am Iesu yn pregethu yn y Synagog fel un ac awdurdod. Daeth llawer o gleifion ato i gael eu hiachau.

Ond nid oedd yr ysgrifenyddion yn hapus - pwy oedd y Pregethwr crwydrol hwn yn meddwl oedd e i dresmasi ar eu tiriogaeth nhw? Mae ffug-hiarchiaeth wedi bod yn rhwystr i ledaenu'r Efengyl drwy'r oesau. Er holl awdurdod Iesu roedd e yn wylaidd ac yn ostyngedig, yn barod i olchi traed ei ddilynwyr, Dyna beth yw gwir fawredd. Diolch i Eric am oedfa fendithiol, oedfa a symbylodd i un o'r ymwelwyr i godi ei ffôn i ddiolch am oedfa lawen a bendithiol.

Bydd oedfa mis Hydref o dan ofal y brawd Eifion Walters a mis Tachwedd y brawd John Harry. Bydd pob oedfa ar Sul cynta'r mis am 2.30 p.m., a chroeso cynnes iawn i bob oedfa.

# FELINDRE

## NEBO

### OEDFAON MIS MEDI 10.30 A.M. YSGOL SUL 2.30 P.M.

- 11 Y Parchedig Owen W. Pugh: Oedfa Gymun
- 18 Y Parchedig Edward Griffiths
- 20 Dydd Mawrth – Gwasanaeth Diolchgarwch Plant yr Ysgol 2.00 p.m. a'r Hwyr 6.30 p.m. o dan ofal y Parchedigion Vincent Watkins ac Owen W. Pugh
- 25 Y Brawd Cyril Jenkins

### OEDFAON MIS HYDREF 10.30 A.M. YSGOL SUL 2.30 P.M.

- 2 Y Parchedig Irfon Robers: Oedfa Gymun
- 8/9 Nos Sadwrn 6.30 p.m. Dydd Sul 10.30 a.m. a 2.30 p.m. Cyrddau Mawr o dan ofal y Parchedigion Eirian Wyn Lewis ac Owen W. Pugh
- 16 Dr. Eurig Lloyd
- 23 Y Parchedig Owen W. Pugh
- 30 Y Parchedig Gareth Morgan Jones

## GWYLIAU

Gobeithio i bawb gael gwyliau hapus yn ystod mis Awst yng nghanol y gwynt, y glaw a'r heulwen. Edrychwn ymlaen am gael heulwen eto cyn y gaeaf.

## YSBYTY

Ni fu yr heulwen yn garedig iawn i amryw o deuluoedd, ond diolchwn fod yr ysbytai yn gyfleus i ni yma yn Felindre. Bu Danny Jones i fewn yn ysbyty Treforys am rai wythnosau ac er ei fod wedi dychwelyd adref, rhaid iddo fynd yn ôl i'r ysbyty am brofion pellach.

Mae Flo Jones, Heol Myddfai, hefyd yn dal yn ysbyty Treforys. Hefyd bu Mrs Gwyneth Mathias mewn ysbyty yn Southampton, ac yna am gyfnod byr yn ysbyty Treforys. Mae hi adref erbyn hyn.

Bu Dafydd Mainwaring, mab Myra ac Aneurin i fewn yn ysbyty Treforys dros nos, a hefyd mae Anthony Stone wedi cael triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty. Mae Mrs Mary Harris hefyd yn ysbyty Singleton, ond yn dychwelyd adref cyn hir.

Bydded i'n gweddïau fod gyda hwy i gyd gan ddymuno gwellhad llwyr a buan iddynt, a gobeithiwn y cawn eu gweld adref yn eu cartrefi yn fuan.

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r canlynol: teulu Heather a'i brawd Keith ar golled eu mam Sarah Annie James. Mae Heather yn ysgrifenyddes yn Ysgol Gynradd Felindre. Bu Sarah Anne yn byw yn Felindre ac yn gyd-ddisgybl gyda llawer o blant y pentref yn ei hamser. Mae llawer o'r ffermwyr yn adnabod y diweddar Meurig Henry Jones a oedd yn gefnder i Helen Jones, Carreg-lwyd.

Bu Margaret Louie Williams hefyd yn golled enfawr i'w theulu.

Cydymdeimlwn gyda'i chwaer-yng-nghyfraith Gwenda a'r teulu.



Bu farw cefnder i Aneurin Mainwaring, sef Clive Hughes.

Tristwch a ddaeth i'r gymuned o glywed am dostrwydd a marwolaeth y diweddar Ian Davies (Ianto) gynt o Fryncelyn, Felindre yn 62 mlwydd oed. Cafwyd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Nebo ac oddi yno i Amlogsgfa Abertawe. Bu'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Owen W. Pugh gydag Eiri Evans-Jones wrth yr organ. Cydymdeimlwn gyda'u plant Claire a Paul a'r teulu. Roedd Ian yn frawd i Anne Evans, un o ddiaconiaid Nebo ac hefyd yn frawd i Michael. Bu farw cefnder i'r teulu yma hefyd, sef Owen John Jones, Craig-cefn-parc.

Blin oedd clywed am farwolaeth Elizabeth Mary Palmer (Betty). Roedd yn fenyw garedig, gyfeillgar ac yn aelod fyddlon a gweithgar yng Nghapel Mynydd-bach, Tre-boeth. Mae Mrs Palmer yn fam i Kevin, yn fam-yng-nghyfraith i Marie ac yn famgu hoffus i Iwan.

Bu farw Hywel Miles o Bontarddulais, brawd y Cynghorydd John Miles, ewythr i Joanne Davies, Tafarn y Shepherds, ac yn gefnder i un o aelodau Nebo, sef Glan Miles. Bydded i'n gweddiâu fod gyda chwi i gyd.

### LLONGYFARCHIADAU

Carwn longyfarch dwy o wragedd y pentref, sef Gwenda Williams a Helen Jones ar dderbyn Tystysgrif Anrhydedd am eu gwaith diflino dros nifer o flynyddoedd er budd Eisteddfod Gadeiriol Felindre. Diolch i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru am y trefniant.

Carwn hefyd longyfarch Angharad Dafis am roddi Felindre a Chraig-Cefn-Parc ar y map yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni wrth iddi draddodi Beirniadaeth Seremoni'r Fedal Ryddiaith. Cyfrol o ryddiaith greadigol heb fod dros 40,000 o eiriau oedd y gystadleuaeth, a'r enillydd oedd y bardd Eurig Salisbury, Aberystwyth – Da iawn.

Mae yn adeg canlyniadau arholiadau ar hyn o bryd. Dewch â gwybodaeth i mi: Phyllis Bell 01792 793751.

# CLYDACH

### CYMORTH CRISTNOGOL

Hyd yn hyn eleni fe gyflwynwyd y swm o £5,410 i gronfa Cymorth Cristnogol gan Bwyllgor Apêl Clydach a'r Cylch. Diolch am eich cefnogaeth ac yn arbennig i'r Dr Alan Cram am ei arweiniad. Cynhelir y pwyllgor nesaf yn Nhŷ Croeso ar Fedi 28 am 2.15.

### 'FLOG IT'

Ym mis Gorffennaf daeth yr enwog Paul Martin o'r rhaglen deledu 'Flog It' i Glydach. Mae'n debyg ei fod wrthi yn paratoi cyfres newydd, yn casglu nwyddau oddi wrth drigolion lleol ac yna eu gwerthu er mwyn codi arian er budd rhywun lleol. Cafodd ymateb da oddi wrth drigolion Heol y Nant a'r ardal. Cafwyd eitemau o ganu a dawnsio gan blant Ysgol Gynradd Clydach ac hefyd gan Gôr Rygbi Treforys. Roedd y tywydd yn wael ac mae'n siwr bod hynny wedi bod yn ffactor i gadw'r tyrfaoedd i ffwrdd. Serch hynny codwyd tua £2000 a ddefnyddir i ddatblygu gardd ar gyfer teulu a gollodd eu tad yn ifanc yn y pentref. Bydd y gyfres yn dechrau ym mis Medi.

### CYNGOR CYMUNED

Cynhaliwyd Ffair Gymunedol eleni eto ym Mharc Waverley yn ogystal a'r noson "Clydach Rocks"



Ar brynhawn Sadwrn gwyl y banc, fe gynhaliwyd cyngerdd 'Clydach Rocks' ar Faes y Bieden, sef cartre' Clwb Rygbi'r Faerdre. Digwyddiad sydd wedi'i drefnu gan Gyngor Cymuned Clydach yw Clydach Rocks, gyda nifer o fandiau ac artistiaid lleol yn diddanu torf o'r pentref'. Gyda thywydd ffafriol, cafwyd prynhawn a noson gofiadwy iawn ar gaeau'r Faerdre, gyda'r band poblogaidd 'Raspberry Jam' yn benllanw ar y noson. Roedd digon i ddiiddu'r ifanc ar y maes hefyd, gyda dau gastell neidio, yn ogystal â gwledd o fwyd o'r hufen ia i'r barbeciw arbennig. Gyda'r dathliad bellach yn dal dychymyg, ac yn llwyddiant ysgubol, mae'n siwr gallwn edrych ymlaen at ddigwyddiad parhaol yng nghalendr cymdeithasol y pentref. Diolch yn fawr iawn i Gyngor Cymuned y pentref am barodwydd i drefnu'r digwyddiad.

### TRAIDCRAFT - TALU AM ADDYSG AC ADEILADU TAI GWELL

Bydd y Parchedig Pam Cram yn parhau i wirfoddoli gyda Tŷ Croeso ac fe'i gwelwn yn gyson yn y pentref yn gwerthu nwyddau Traidcraft.

Mae catalog newydd Traidcraft ar gael. Mae Traidcraft yn parhau i weithio gyda chymunedau difreintiedig iawn ac yn eu helpu i sefydlu masnach i'w cynnyrch. Mae ychydig yn mynd ymhell a thrwy brosiectau Masnach Deg cymunedol mae yn helpu i adeiladu tai gwell. "SHOW YOU CARE" yw'r slogan cyfredol. Yn wyneb Brexit mae'n bwysig bod mudiadau fel Cymorth Cristnogol a Traidcraft yn gallu monitro telerau masnach i sicrhau nad yw pobl y gwledydd tlawd yn cael eu hamddifadu.

NEUADD FELINDRE : : GER ABERTAWE

1970 - 46 - 2016  
Mlynedd

**EISTEDDFOD GADEIRIOL**

**FELINDRE**  
Gwener, Hydref 21ain, 2016

**LLYWYDD**  
Mr Gethin Thomas  
*DREFACH*

Arweinydd y Prynhawn  
Y Britestraws Mrs. Sara David  
Arweinyddion y Nos  
Mrs. Phyllis Bell / Y Parchedig Owen Pugh

**BERNIAD:**  
Cofal: Mrs. Janet Jones  
Llefer: Y Prifardd Eirir Jones  
Awdio: Barry a Linda Plantier, Felindre  
Gwasil ysgolnewydd plant ysgol a llof  
Mrs Narys Doolan, Llanarthne  
Cyflwyno: Mr. Jonathan Morgan BMus LRAM, Y Tymbl  
Gardol a Meistr Dafod y Cadeiriol: Y Prifardd Eirir Jones  
Cân y Cadeiriol: Mrs. Angela Bell  
Trwyddwr: Mr. Neil Palmer

**SWYDDOGION Y PWYLLGOR:**  
Cadeiriol: Mrs. Helen Jones  
Tysgydd: Mrs. Helen Williams  
A-dywyddwr: Mrs. Beryl Bell

Yng Nghyfeirir  
Mrs. Helen Evans, Cartref Heol Strydydd, Pontarddulais SA4 8LG - Ffôn: Abertawe 331252  
Mrs. Gwenda Williams, 35 Heol Mynydd, Felindre, SA5 7ND - Ffôn: Abertawe 794616

I ddechrau am: Llud: 1.00 o'r gloch Agored: 6.00 o'r gloch  
Alyniad: Yn cynnwys rhaglun: Godelon £2.00, Ffôn £1.00

Darparu'r llofwrth am ôr y rhestr  
Darparu cyfnewid ar y pryd.

**AELOD-O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU**

## DIOLCH AM WEINIDOGAETH

Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Gorffennaf i ddiolch am weinidogaeth Parchedig Pam Cram. Arweiniwyd y gân gan Arfon Jones, awdur cyfeithiad newydd y Beibl, sef Beibl .net, ac anerchwyd gan Arolygydd y Gylchdaith, y Parchedig Howard Long. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd te bach yn y Neuadd a geiriau o ddiolch ar ran yr Eglwys Fethodistaidd a chyflwynwyd blodau ar ran y Guild gan Marilyn Harry. Cyflwynwyd diolch ar ran Cytûn yn lleol am waith Pam fel Ysgrifennydd yn ystod y degawd diwethaf gan Robot Powell, Cadeirydd Cytûn Clydach a chyflwynwyd llun o Glydach o waith Walford Davies iddi ar ran Capel y Nant. Ym mis Medi croesewir y Parchedig Leslie Noon yn weinidog yng Nghlydach. Mae hi eisioes yn weinidog ar Eglwys Unedig Sgeti. Dymunwn yn dda iddi gan obeithio hefyd y caiff y Parchedig Pam Cram gyfle i gael hoe.



## BUGAIL NEWYDD EGLWYS CALVARY (ASSEMBLY OF GOD)

Ym mis Medi fe groesewir arweinydd newydd i'r eglwys yma ym mherson Chris Pavett. Mae wedi bod yn cynorthwyo Larry ers blynnyddoedd ac yn weithgar iawn yn Nhŷ Croeso. Bydd oedfa arbennig i'w groesawu ar Fedi 10fed am 6.30.

## CAPEL Y NANT

Yn y llun gwelir Harri mab Luned gyda'i chwaer Efa a'i famgu Sali Wyn. Llongyfarchiadau i'r teulu bach yn Awstralia bell.

Mae'r haf wedi bod yn gyfnod cyffrous i deulu Dewi ac Annette. Ganwyd wyres newydd iddynt, sef Cadi Haf i Aled a Rhiannon yn Rhydaman. Hefyd lanswyd arddangosfa o waith Aled yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ar Mametz.



## PERERINDOD CAPEL Y NANT

Aeth y bererindod flynyddol yn ddigwyddiad i edrych ymlaen ato. Bu dydd i'w gofio eleni eto wrth i fws Gareth Evans fynd â ni i Fro Morgannwg. Roedd y bws yn llawn a phawb mewn hwyliau da.



Llanbedr-y-fro oedd y cyrchfan cynta'. Tipyn o gamp oedd cyrraedd yno ar hyd ffordd oedd yn addas i geffyl a chart ond yn gryn her i fws. Ond dyma gyrraedd Capel Croes-y-Parc lle mae cofgolofn fawr ar fedd yr emynydd Dafydd William (1721-94). "Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau" yw ei emyn enwocaf. Cyfansoddwyd hwnnw yn ôl y sôn yn dilyn ei brofiad yn treulio noson stormus yng nghyntedd eglwys Llandeilo Tal-y-bont. Daeth i gael ei 'nabod fel "emyn y glowyr." Ganrif ar ôl cyfansoddi'r emyn bu tanchwa a llifogydd yn nglofa Tynewydd, y Rhondda, a daliwyd nifer o lowyr mewn dŵr dwfn. Buont yn canu'r emyn drosodd a throsodd a'r achubwyr felly yn llwyddo i'w lleoli a'u rhyddhau.

Ymlaen â ni wedyn i Fethesda'r Fro, capel sy'n gysylltiedig â Thomas William (1761-1844), awdur yr emyn "Adenydd colomen pe cawn."

Cawsom groeso hael yn y ddau le, a chyfle i addoli. Synhwyrrem mai ymdrech galed i gadw'r drws ar agor oedd hi ym Methesda, ond bod gobeithion a chynlluniau am dyfiant yng Nghroes-y-Parc. Roedd band yn cyfeilio yno a bywiogrwydd yn yr oedfa, a Neuadd newydd fawr, ddymunol wedi ei hagar ar gyfer ysgol Sul ac ati.

Roedd mynwent wrth y ddau gapel, ac ychydig o'r beddau cynnar â Chymraeg ar y cerrig. Bu'r ardaloedd hyn yn drwyadl Gymraeg hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd Gŵyl Flodau yn eglwys Llanilltud Fawr. Gosodiadau brenhinol iawn oedd y rhan fwyaf!

Mae'n eglwys hynod ddiddorol, yn llawn creiriau ac yn llawn hanes. Cawsom arweiniad ardderchog yn Gymraeg gan dri tywysydd oedd yn hyddysg yn y stori. Gwefr oedd sylweddoli bod addoli Cristnogol wedi digwydd ar y safle hon yn ddi-dor ers y bumed ganrif. Sefydlwyd yr eglwys gan Illtud, un o'r prif seintiau Celtaidd.

Ceir bedd lolo Morganwg (Edward Williams, 1747-1826), yn y fynwent. Aethom ymlaen ar ei drywydd e i'r Bont-faen, lle pwysig yn ei hanes. Roedd yn berson hynod alluog ac amlochrog a gwreiddiol. Yn saer maen ac yn ŵr busnes, fe'i cofir yn fwyaf am mai fe sefydlodd Orsedd y Beirdd, a gwneud cyfraniad aruthrol i'n diwylliant drwy gasglu hen lawysgrifau. Roedd yn gynganeddwr mor alluog fel y gallai ddynewared Dafydd ap Gwilym a sgrifennu cywyddau yn ei enw. Cawr o ddyn.

Roedd yn dda cael egwyl i loetran ychydig yn y Bont-faen a chofio amdano gyda rhyfeddod. Cyn dod adre cawsom glamp o swper yn y "Bear", lle arferai yntau ymlacio. Troi am adre wedyn, wedi blino'n lân, ac wedi'n hadnewyddu.

Diolch Robot am drefnu taith mor fuddiol i ni.

## SEINIAU SONIARUS

Seiniau Soniarus yn wir a glywyd yng Nghapel y Nant ar Orffennaf 23 yng nghwmni Fiona Gannon, ei chwaer Olwen Turchetta a'u ffrind Vere Smyth yn canu'r utgorn. Roedd yn noson ardderchog a chodwyd dros ddau gant tuag ein helusennau Alzheimer's ac Apêl Feddygol Bhopal.

Edrychwn ymlaen at gyngerdd arall gyda Chôr Dathlu Cwm Tawe a Chôr Merched Treforys ar Hydref 14.



## PRIODAS

Llongyfarchiadau i Lisa, merch John Williams ein horganydd a Gaynor ar achlysur ei phriodas â Mathew Lewis yn Soar-Maesyrhaf, Castell-nedd ddechrau Awst.



## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn gyda Tal Williams a'r teulu ar farwolaeth ei frawd Emlyn yn ddiweddar.

## AR WELLHAD

Da gweld bod Aurwel Morgan, un o ddosbarthwyr selog y Llais yn cryfhau gan bwyll bach. Dymuniadau gorau hefyd i Val Hadley ac Anne Marie Roderick ar ôl bod yn yr ysbty.

## MERCHED Y WAWR

Bydd Mudiad Merched y Wawr yn dathlu hanner can mlynedd yn hanes y Mudiad ac mae aelodau cangen Clydach yn edrych ymlaen at dymor newydd. Gobeithio cawn groesawu aelodau newydd i ymuno yn ein gweithgareddau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Edrychwn ymlaen at ymuno gydag aelodau eraill o Gymru yn ein Penwythnos Preswyl yn adeiladau newydd Prifysgol Abertawe. Cynhelir ein cyfarfod agoriadol ar y drydedd nos Fawrth ym Medi, sef 21 Medi am 7 o'r gloch yn Neuadd y Nant. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Annette Hughes 01792843440.



*Darn o waith Iris Williams fu yn Arddangosfa'r Rhanbarth yn y Sioe Amaethyddol*



## PENNAETH NEWYDD

Dymunwn yn dda i Bennaeth newydd Ysgol Gellionnen fydd yn cychwyn ar ei gwaith ym mis Medi. Cyn hyn roedd Mrs Rhian Desouza yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol Gymraeg Trebannws.

## ARDDANGOSFA

Mae'r ffotograffydd, Aled Rhys Hughes, yn falch iawn o'i gysylltiadau â Chwm Tawe. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Cwmllynfell ac Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Mae arddangosfa o'i waith yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ar hyn o bryd. Ganrif yn ôl yr ymladdwyd brwydr ffyrnig ac erchyll Mametz lle cafodd pedair mil o filwyr Cymreig eu lladd neu eu clwyfo. Bu Aled yn ymweld â'r ardal ym mis Gorffennaf ers chwe mlynedd er mwyn creu'r lluniau.

Yr ysbrydoliaeth ar gyfer y gwaith oedd llyfr y llenor a'r artist David Jones, "In Parenthesis" sydd wedi ei seilio ar ei brofiad yn y brwydro.

Er cymaint sydd wedi newid mewn canrif, mae'r lle yn dal i gofio. Ac mae'r lluniau wedi dal y cof hwnnw.

Cyhoeddodd SEREN lyfr *Mametz* i gyd-fynd â'r arddangosfa.



*Aled Rhys Hughes gyda'i dad y Parchedig Dewi Hughes, ei frawd Dr Ifan Hughes ac Ifor ap Glyn a agorodd yr Arddangosfa*

## O'R FENNI

Addasiad Mel Morgans Y Practis gan Leyshon Williams a berfformiwyd gan Gwmni'r Gwter Fawr yng nghystadleuaeth action Drama Fer yn Steddfod y Fenni. Aelodau'r cast oedd Eifion Price fel William Thomas; Colin Evans fel Jacob, Jayson Senchal fel Wil, Alan Pedrick fel Twm, Euros Jones fel Dic Huws, Lisa Lewis Jones fel Harriet, Siwsan Isaac fel Winni, Sarah Hopkin fel Mrs Dic Huws a Glynog Davies fel y dyn a'r bag. Cyfarwyddwyd gan Mel Morgans. Fe gawson hwyl ac enillion nhw'r gystadleuaeth gyda Eifion Price yn cael clod am yr actor gorau a Mel fel cyfarwyddwr. Llongyfarchiadau.



## Y LLYFRGELL

Eleni gwelwydd addasiad ffilm o un o nofelau arobryn Gwobr Goffa Daniel Owen - Y Llyfrgell gan Fflur Dafydd - ar y sgrin fawr am y tro cyntaf mewn dangosiad arbennig yn Sinema'r Fenni. Dyna oedd ymddangosiad cynta y ffilm yng Nghymru cyn mynd ar daith. Hon yw ffilm gyntaf Euros Lyn, y cyfarwyddwr nodedig sydd a sawl BAFTA i'w enw ac sydd wedi cyfarwyddo rhai o gyfresi mwyaf poblogaidd Prydain: Doctor Who, Sherlock, Broadchurch a Happy Valley. Dyma hefyd sgript ffilm gyntaf yr awdur Fflur Dafydd, nofelydd a sgriptwaig sydd wedi ennill y Fedal Ryddiaith a Gwobr Goffa Daniel Owen ac sy'n adnabyddus am greu'r gyfres Parch. Mae cysylltiadau gyda'r ddau a Chwm Tawe, tadcu Fflur Dafydd wedi bod yn weinidog ym Mhontardawe ac Euros Lyn wedi cael ei addysg yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Noson wfreiddiol iawn oedd bod yn y lansiad yma.



# TREBANNWS

## FFARWELIO

Dechreuodd gyrfa addysgol Miriam Powles (gynt Sterl) yn ysgol Trebannws yn ôl yn 1961 pan yn dair oed. Pum deg saith o flynyddoedd yn ddiweddarach ym mis Awst eleni, daeth yr yrfa honno i ben, nid fel disgybl wrth reswm, ond fel Prifathrawes. Does dim llawer o bobl yn gallu hawlio'r gamp yna.

Diolch yn fawr i Miriam am ei hymrwymiad diflino i'r ysgol yn ystod y deng mlynedd ddiwetha' a dymuniadau gorau am ymdeoliad hir, hapus a chyffrous iddi hi a'i gŵr Mark yn eu cartref newydd yn y Mwmbwls.

Yn y llun gweler Brian Thomas, Cadeirydd Pwyllgor y Llywodraethwyr yn estyn anrheg i Miriam ar ran Corff Llywodraethwyr yr ysgol

Hefyd, rhaid ffarwelio a llongyfarch y dirprwy bennaeth sef Rhian Desouza ar gael ei phenodi yn brifathrawes Ysgol Gymraeg Gellionnen. Dymuniadau gore iddi hi yn ei swydd newydd.

Mae swydd y pennaeth dros dro yn cael ei chyflawni gan Mrs Rhian Evans o Ysgol Cwmllynfell. Croeso cynnes iddi i'n plith ac mae Mrs Eleri Bevan yn camu i swydd y dirprwy dros dro. 'Rydym yn dymuno llwyddiant i'r ddwy.

teyrnged iddo. Mae ef bellach nôl yn ei gartref ysbrydol yn yr Ardd Orffwys ym mynwent Pant-y-crwys. Coffa da amdano a heddiw i'w lwch.

Ar 1 Awst cynhaliwyd angladd John Price, y Sgeti, 84 oed, ym Mhant-y-crwys. Yn ŵr i Donna 'roedd yn dad i'r diweddar Fiona ac Ailsa. Mae Donna yn rhan o deulu y diweddar Robert Thomas (Bob Siop). Priodwyd hi a John ym Mhant-y-crwys 60 mlynedd i fis Medi eleni. Gwasanaethwyd yn yr oedfa gan y Parchedig Clive Williams, a'r organydd oedd Ms Eiri Mair Griffiths. Claddwyd yn y fynwent. Coffa da amdano.

## PEILOT AWYREN

Pob dymuniad da i Aled, mab Gareth a Sue James Pontardawe, sy' bellach yn hedfan Awyrennau Norwy, allan o Oslo, yn ei swydd fel First Officer. Yn yr hydref fe fydd yn hedfan allan o Alicante yn Sbaen 'Roedd ym Maes Awyr Nice ac yn Twrci pan fu'r digwyddiadau erchyll yn y ddwy wlad yn ystod yr haf. Mae Aled yn frawd i Bethan, ac yn ŵyr i Hazel James (aelod) a June Booth (Sant Pedr Pontardawe)

## ARHOLIADAU

Llongyfarchiadau a phob lwc i Ffion Williams, yr Allt-wen, ar ganlyniadau gwyich yn Lefel A a'r Fagloriaeth Gymreig. Mae'n edrych ymlaen i astudio ym maes y Celfyddydau Perfformio yng Nghaerdydd. Mae Ffion yn ferch i Miranda a Gwyn, ac yn wyres i Audrey a Vince James, Heol y Lôn.

# YSTALYFERA

## OEDFAON MIS AWST

I wneud ein hoedfaon yn fwy diddorol, ry'm ni'n y Wern yn ceisio cynnal pob math o wasanaethau ar fore Sul. Mae rhain yn amrywio o'r traddodiadol i'r anffurfiol. Fel arfer cynhelir yr oedfaon anffurfiol ym mis Awst - daw'r aelodau at ei gilydd, ac wedi'r rhannau arweiniol, caiff y sawl sy'n bresennol gyfle i drafod, i gyfrannu ac i gymdeithasu uwchben cwpaned o de.

Fel hyn y bu ym mis Awst eleni. Gan fod ein horganydd dawnus, Mr Doug Roberts wedi ymdeimlo â'r awen yn ddiweddar mae wedi bod wrthi'n ddyfal yn cyfansoddi tŷn ar gyfer geiriau cyfarwydd Gweddi'r Arglwydd. Mae'n dŷn hynod afaelgar a gweddaidd ei naws. Felly, er mwyn cyfarwyddo â hi, bu Doug yn trwytho cynulliadau'r ddau Sul cyntaf ym mis Awst yn ei don newydd. Da yw cael dweud, ac mewn amser byr iawn, nid yn unig rydym bron a dysgu'r dŷn newydd, ond mae'r dŷn hefyd wedi bod yn gyfrwng i ni ystyried a myfyrio o'r newydd ar eiriau gweddi, roedd Iesu ei hun wedi defnyddio yn ystod ei weinidogaeth ddaearol.

Diolch felly i Doug am wneud lawn defnyd o'i ddawn werthfawr, wrth ychwanegu tŷn newydd, at y tonau eisoes a gyfansoddwyd ganddo. Heb amheuaeth, bydd Gweddi'r Arglwydd ar ei newydd wedd, yn fodd sylweddol i gyfoethogi ein hoedfaon yn y Wern ar fore Sul.

## Y WERN YN CYDYMDEIMLO

Blin iawn oedd gennym glywed fel cymdeithas, fod ein cyfaill annwyl Mr Vernon Jones, Swyddfa'r Post, Heol y Wern, wedi ffarwelio â ni yn ddiweddar, a hynny'n annisgwyl a disymwth iawn.

Dyn teulu oedd Vernon yn anad dim, yn ŵr da a ffyddlon i Ray, tad a thad-yng-nghyfraith cariadus i Carys a Tony, Gareth a Claire ac Andrew a Caroline. Cofiw'n amdano hefyd fel tad-cy tyner i Rebeca, Gwenllian, Tirion, Rowan, Elen ac Ella.

Ar sail ei natur ffein a dymunol, aeth Vernon yn ddwfn iawn i serchiadau pawb a gafodd y fraint o'i nabod, a gwelir ei eisiau yn fawr iawn.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Ray a'r teulu oll, yn eu colled a'u hiraeth ar ôl un mor annwyl yn eu golwg.

Diolch i'r Parchg Owen Pugh am ei gymorth a'i wasanaeth i'r teulu ar awr mor anodd iddynt.



# CRAIG CEFN PARC

## CYDYMDEIMLO

Fel eglwys a chymuned cydymdeimlwn â theulu y diweddar Jeff Jewell, Ffordd Ellen a fu farw ym mis Mehefin yn 75 oed. 'Roedd yn dad, tadcu, a hen-dadcu, ac yn barod i wneud cymwynas i bawb pan oedd angen. Cynhaliwyd oedfa angladdol o dan ofal Mr Gareth Hopkin yn Amlogsgfa Abertawe.

Gyda siom a thristwch y clywsom am farwolaeth un o'n haelodau, sef Owen John Jones, Cefn Bryn, Rhyddwen Place a fu farw'n sydyn ar 23 Mehefin yn 80 oed. Yn ŵr i'r diweddar Tessa, 'roedd yn dad i Lynne a Wendy, yn dadcu i Sara, Sam, Amy, a Daniel, ac yn fab i'r diweddar Evan a

Margaret Jones (Rhyd-y-gwin). Yn aelod ffyddlon drwy gydol ei oes, roedd ei lais swynol yn gyfarwydd i ni i gyd. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlogsgfa Abertawe ar 12 Gorffennaf o dan ofal Mr Gareth Hopkin a'r Parchedig D.M. Hughes. Bu Owen John yn aelod o Gôr Orffiws Treforys a hyfryd oedd clywed dau ddatganiad yn ystod yr oedfa fel

# CAEAU FELINDRE A SALEM, 1841

## Llety Tomos, Felindre 1841

Gelli Lipa Fawr • Gelli Lipa Fach  
Coedcae ucha • Cae mynydd bach  
Cae berllan • Perllan • Cae pella  
Graig fach • Coedcae bach  
Cwm • Waun fach • Craig y defaid ucha  
Craig y defaid isha • Cae newydd • Cae pant  
Cae capel • Crofft fach • Croft cae mawr  
Crofft cae parra • Cae glas  
Cae sgubor • Cae bach

## Maestir Mawr, Salem 1841

Cae mynydd • Cae dyfatty • Cae ben y ty  
Cae Einon • Cae du • Graig uchaf  
Graig fach • Cae bach • Cae pistyll  
Cae newydd • Cae gilli (?) • Graig fach isha  
Cae pant • Cae cenol • Cae hir  
Cae garw • Cae coed  
Gwaun ddu • Gwaun llwyd



## D. a W. THOMAS

Garej Capel Road, Clydach, Abertawe

Ffôn: 01792 842529

*Busnes teuluol ers 1968*

*Good quality cars in stock*

*from £1,500 - £15,000.*

*All serviced with MOT.*

*Mostly local cars.*

## CEIR O SAFON

**Prisau rhwng £1,500 - £15,000**

**Gwasanaeth ac MOT ar bob un**

**Ceir lleol yw'r mwyafrif**

Pam prynu car newydd os oes rhai 3  
mis oed ar gael am bris rhesymol?

## MOT

## £39.50

*with this voucher*

*Gostyngiad arbennig i  
ddarllenwyr y Llais*

# DIGWYDDIADUR CWM TAWE

## 9 MEDI: LANSIAD MAE'R GALON WRTH Y LLYW

Dewch i lansio clasur diweddaraf Honno, y Wasg i Fenywod Cymru, sef *Mae'r Galon Wrth y Llyw* gan Kate Bosse-Griffiths. Bydd Heini Gruffudd, mab yr awdures, yn son am fywyd rhyfeddol ei fam, gyda gwerthfawrogiad o'r nofel gan Mair Rees a darlenniad ohoni gan Pat Griffiths. Noson i ddechrau am 7 o'r gloch yn Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, Abertawe.

## 9 MEDI: SESIWN WERIN Tŷ TAWE

Noson yn Nhŷ Tawe gyda drysau'n agor am 8.30y.h. Dewch i wrando, canu, llymeitian, neu dewch ag offeryn. Ceir casgen o gwrw gwadd ym mhob sesiwn.

## 10 MEDI: CÔR Y GYRLAIS GYDA RHYS MEIRION A CHÔR Y GOGLEDD

Cyngerdd yn Neuadd Les Ystradgynlais am 7:00y.h. Tocynnau yn £10, ffoniwch 01639 843163.

## 14 MEDI: CYFARFOD BLYNYDDOL Y LLAIS

Cyfarfod blynyddol papur bro y *Llais* i'w gynnal yn Nhŷ'r Gwrhyd, Holly Street, Pontardawe. Cyfarfod i ddechrau am 6y.h. Croeso i bawb.

## 14 MEDI: A GOOD CLEAN HEART

Drama ddwyieithog gan Alun Saunders (cyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Ystalyfera) yng Nghanolfan y Celfyddydau Pontardawe am 7.30y.h. Stori cyrraedd oed ingol yn Gymraeg gydag is-deitlau Saesneg. I archebu tocynnau, ffoniwch 01792 863722.

## 16 MEDI: GIGS Y GWACH – BRODOR

Gig Cymraeg yn nhafarn y Gwachel, Pontardawe. Noson i ddechrau am 8.30y.h. a mynediad am ddim. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01639 763819 neu ewch i [www.micnpt.cymru](http://www.micnpt.cymru).

## 21 MEDI: CANGEN CLYDACH O FERCHED Y WAWR

Cwrdd yn Neuadd y Nant, Clydach am 7y.h. Noson ymaelodi ac edrych yn ôl. Am fwy o fanylion ffoniwch 01792 843440.

## 30 MEDI: BORE COFFI MACMILLAN

Bore coffi yn Neuadd y Nant, Clydach rhwng 10.30y.b. a 12y.p. Am fwy o fanylion ffoniwch 01792 843440.

## 30 MEDI: NOSON I GOFIO ISLWYN WILLIAMS, YSTALYFERA

Noson yn Hwb Ystalyfera, Commercial Street, i ddechrau am 7y.h. gyda Robert Rhys, Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe yn rhoi gwerthfawrogiad o waith Islwyn Williams, a dangosiad o ddwy ffilm a gynhyrchwyd gan y Prifardd Dafydd Rowlands. Tocynnau ar gael oddi wrth Julie Jones 01639 849663 neu Gareth Richards 01792 815152.

## 30 MEDI: TYRFE TAWE GYDA ARFON WYN

Noson yng nghwmni Arfon Wyn i ddechrau am 8.30y.h. yn Nhŷ Tawe. Mynediad am ddim. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01792 460906.

## 14 HYDREF: LANSIAD GWENALLT

Lansiad cofiant y Prifardd Alan Llwyd i D. Gwenallt Jones 1890-1968 yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe, gyda'r noson yn dechrau am 6.30y.h. Am fwy o fanylion, ffoniwch 01639 763818. Croeso cynnes i bawb!

## 14 HYDREF: CYNGERDD Y CORAU

Noson yng Nghapel y Nant Clydach i ddechrau am 7y.h.

## 14 HYDREF: SESIWN WERIN Tŷ TAWE

Drysau'n agor am 8.30y.h. Dewch i wrando, canu, llymeitian, neu dewch ag offeryn. Ceir casgen o gwrw gwadd ym mhob sesiwn.

## 18 HYDREF: MERCHED Y WAWR CLYDACH

Llestri gyda Glenys Kim yn Neuadd y Nant, Clydach. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Annette Hughes ar 01792 843440.

## 21 HYDREF: EISTEDDFOD GADEIRIOL FELINDRE

Cysyllt: Helen Evans 01792 883252

## 24 HYDREF: DAGRAU TOST – COFIO ABERFAN

Noson yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe yng nghwmni'r Athro Christine James, Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe fydd yn trafod ei chyfrol sy'n cofio am drychineb Aberfan. Mwy o fanylion i ddilyn.

## 3-4 TACHWEDD 2016: GŴYL FFILM Y CRINDDAIL

Dyddiad i'r dyddiadur! Mwy o fanylion i ddilyn.

## 15 TACHWEDD: MERCHED Y WAWR CLYDACH

Sgwrs a siopa gyda Mair Rees Casnewydd.

## CROESO I BAWB. POB BORE DYDD MAWRTH: GRŴP TI A FI

Cynhelir yn Neuadd y Nant, Clydach rhwng 9 – 11y.b.


## POB NOS FAWRTH: TWRW TAWE

Cyfle gwych i bobl ifanc ganu, perfformio a chymdeithasu trwy'r Gymraeg. Mae pobl ifanc blynyddoedd 4 i 9 yn cyfarfod rhwng 18.30y.h. a 20.00y.h. tra bod pobl ifanc Blwyddyn 10 ac uwch yn cwrdd rhwng 8 a 10 yr hwyr yn Ffestri Tabernacl, Treforys. Ffoniwch 01792 460906 am fwy o fanylion.

## POB DYDD IAU: SIOP SIARAD I DDYSGWYR

Siop Siarad y Dysgwyr yn Nhŷ Croeso, Clydach, pob bore lau rhwng 10.00 a 11.30y.b.

Croeso i chi anfon manylion eich digwyddiadau at y *Llais* er mwyn iddynt gael eu rhestru yma a chael sylw eich cyddarlennwyr. Cysyllter â Gwenno Ffrancon ar 01792 842062 neu [gwenno\\_ffrancon@hotmail.com](mailto:gwenno_ffrancon@hotmail.com)



**Gwenallt**  
Cofiant D. Gwenallt Jones 1890-1968  
ALAN LLWYD

**GWENALLT - ALAN LLWYD**  
Cofiant D. Gwenallt Jones 1890 - 1968  
Noson lansio am 6.30 o'r gloch, nos Wener yr 14<sup>af</sup>  
a Hydref yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe

Ar gael o'ch llyfrgell neu stich llep llyfrau leol [www.ylloffa.com](http://www.ylloffa.com) 